Ni fedrwn anghydweld a chasgliad y Gweinidog fod y Cyngor wedi "gwneud llawer i ddwyn o amgylch yr undod angenrheidiol ond y mae'n amheus a wnaeth erioed chwarae'r rhan ar gyfer pa un ei sefydlwyd." Yr agwedd yma yn arbennig a

Swyddogaeth

gymhellodd ein meddwl yn ystod y flwyddyn pryd y gwnaethom adolygiad cyffredinol o'n hamcanion a'n swyddogaeth. Nid yw'n waith hawdd i ddechongli Cymru iddi ei hun yng ngolau newid economaidd a'r cyflwr cymdeithasol. Un anhawster yw bod y cyfnewidiadau economaidd wedi bod mor chwyrn a chymhleth fel y dygant gyflwr hylif mewn cymdeithas. Ni rydd y rhai hyn eu hun i ddsbarthiadau pendant ar ba rai y gellir seilio gweithrediadau pendant.

Wrth geisio damcanu y dull gorau o gyflawnu'r swyddogaeth yma ar gyfer pa un y lluniwyd ef sefydlodd y Cyngor Bwllgor Ymchwil ac Astudiaethau Cymdeithasol o dan lywyddiaeth yr Athro Idris Foster

o Goleg yr Iesu, Rhydychen. Y mae gan aelodau'r pwyllgor wybodaeth drwyadl o wahanol agweddau o'n diwylliant cenedlaethol, a'n bywyd cymdeithasol ac economaidd, ac y mae ar hyn o bryd yn casglu gwybodaeth o adrannau'r brifysgol a'n sefydliadau cenedlaethol ac yng ngolau eu casgliadau byddant yn cymeradwyo i'r Cyngor agweddau pendant o wasanaeth gymdeithasol sydd yn hawlio eu sylw. Pryd na cheir gwybodaeth felly, gobeithir yr arloesa'r Pwyllgor yr ymchwil er mwyn cyflawnu gwir amcan y Cyngor.

Yr amcan yw ddehongli Cymru iddi ei hun; ac wrth wneud hynny wynebu ffeithiau a thueddiadau fel y medr Adrannau'r Llywodraeth, cyrff cyfreithiol a chyfyngau gwirfoddol weithredu yng ngolau'r cyflwr cymdeithasol presennol. Fe gynnwys gwaith y Pwyllgor waith ymchwil pur. Nid yw'n proffesu'n uniongyrchol ar ei ben ei hun, ond pwysu am weithrediad gan y Cyngor yn y meysydd y teimlir ei fod yn angenrheidiol.

Yn ogystal y mae'r Pwyllgor Gwaith a Swyddogion y Cyngor wedi rhoddi ystyriaeth fanwl i ddibenion ac amcanion y gwahannol adrannau. Ar bob achlysur y mae wedi ail ddiffinio'r polisi, ac mewn dwy enghraifft wedi apwyntio swyddogion newydd i weithredu y polisi.

Polisi Nid oes amheuaeth nad oedd eisiau ail ystyried pwysleisiau traddodiadol, a bu cynllun dwy ochrog o docio a chryfhau yn gweithredu yng ngwyneb ystyriaethau cyffredinol o bersonnau addas a ffynonhellau ariannol.

Y drydedd egwyddor tu ôl ein meddwl, yw'r angen am ddehongli gwaith y Cyngor i'r cyhoedd, h.y., cyfleu darlun clir ohono'i hun. Beunydd gofynnir i ni "Beth yw Cyngor o Wasanaeth Cymdeithasol a pha beth a wna?" Nid oes amcan mewn cyffredinol yn ambendant i geisio ateb y cwestiynau hyn. Y mae'n amhosibl rhoddi fformiwlâ pendant sy'n crynhoi'r holl weithgareddau amrywiol yr ydym yn ymwneud a hwynt.

Ni ellir ateb y cwestiynau hyn ond wrth roddi allan yr amcanion a gwaith pob adran, a pha beth a wna yn ystod y flwyddyn yn ei gylich arbennig. Ceisia'r Adroddiad Blynnyddol yma nodi ac egluro'r gweithgareddau hyn.

Y mae rhai agweddau o'n gwaith na sonnir amdanynt yn yr adroddiadau adrannol. Y maent yn cynnwys ymadawiad oddiwrth ein dosbarthiadau traddodiadol, ac eglurant ailddiffiniad ac ailgyfarwyddyd ein polisi.

Er enghraifft noda Deddf Elusennau 1960 gyfnod newydd mewn partneriaeth rhwng y cyrff gwirfoddol a chyfreithiol. Gwahodddwyd y Cyngor gan y Comisiwn Elusen i roddi cyhoeddusrwydd i ddarpariaethau'r Ddeddf i bob sefydliad gwirfoddol yng

Elusennau Nghymru a Mynwy. Cafwyd cynrychiolaeth dda o'r sefydliadau hyn mewn cyfarfod a drefnwyd ac a anerchwyd gan y Prif Gomisynwr Elusen, Mr. C. P. Hill, C.B.E. Bydd y Cyngor yn parhau i gydweithredu gyda'r Comisiwn yn ystod y cyfnod pryd y cofrestrir elusennau yn y Dywysogaeth, gan wneud popeth o fewn ei allu i weithredu yr hyn a gymeradwyir yn y Ddeddf ac a fydd yn effeithio mudiadau gwirfoddol.

Enghraifft arall o gydweithrediad gyda'r Comisynwyr Elusen oedd galw cyfarfod rhwng ymddiriedolwyr elusennau yn Ne Cymru a'r Dirprwy Gomisynwr Elusen. Yr oedd y Comisiwn yn awyddus i roddi ystyr-iaethau i'r elusennau hynny ac angen cyngor,

Cyngor i
Ymddiriedolwyr
a gofynasat i ni wneud trefniadau ar gyfer "Meddygfa Brawf." Am y tro cyntaf erioed medrai elusennau drafod y problemau yn leol gyda swyddog y Comisiwn ac hefyd dderbyn cyngor arbennigwr. Y mae'r Cyngor yn parhau yn y swydd yma o gadwyno trwy drefnu ymweliadau ychwanegol gan y Dirprwy Gomisynwr ag ardaloedd yng Ngogledd Cymru trwy gymorth Cynghorau Gwlad.

Mae'n hyfryd nodi bod Adrannau'r Llywodraeth a chyrrff swyddogol yn troi'n gyson i'r Cyngor hwn pan yn ymdrin a sefydliadau gwirfoddol ar seiliau cenedlaethol.

Cyfnewidiad arall yn ystod y flwyddyn oedd sefydlu Cynhadledd Barhaol ar "Gofal am Garcharorion wedi eu Rhyddhau." Am y tro cyntaf galwyd ynghyd fudiadau gwirfoddol a chyfreithiol yng Nghymru

Gofalu am Garcharorion
wedi eu Rhyddhau o'r
Carchar

a Mynwy sy'n ymddiddori yn y maes yma mewn ymdrech i gyfuno a chysylltu y gwaith. Croesawyd y gynhadledd yn gynnes o dan arweiniad y Cadeirydd, Syr William James Thomas, Bart., ac y mae ar hyn o bryd yn paratoi llyfryn yn amlinellu amcanion, dibenion, ac anghenion ymarferol yr aelodau. Teimlir y bydd y Gynhadledd Barhaol o werth mawr i ddenu carcharorion ar ôl gwasanaethu deddfryd, ac hefyd i gynorthwyo yr aelodau i ofalu am deuluoedd y carcharorion tra y bont o dan y ddeddfryd. Yng ngolau cynnydd nifer troseddau a nifer y troseddwy'r ieuainc ni ellir gorbwysleisio gwerth corff o'r natur yma.

Y mae'r Cyngor yn ymwneud a datblygiad cymdeithasol ac hyfforddiant arweinyddion o fewn y gymdeithas. O dan nawdd y sefydliadau cymdeithasol sefydlwyd Is-Bwyllgor i archwilio cyflwr presennol

Datblygiad
Cymdeithasol

Cymdeithasol o fewn y wlad. Y mae'r pwyllgor yn gwneud adolygiad o'r canolfannau presennol, yr adeiladau lle y cyfarfyddant, eu rhaglenni, a'r ffynonellau ariannol. Hyderir pan y cwblheir yr adolygiad, y bydd o gynorthwy mawr i'r Gweinidog Addysg, ac hefyd i hwyluso gwaith swyddogion y Cyngor i gynghori a llywio pwyllgorau lleol a thrwy hynny ddyrchafu safonau. Yn yr agwedd yma yr ydym yn trefnu rhaglen ddeng mlynedd i ysbrydoli datblygiad cymdeithasol. Un agwedd bwysig y telir sylw mawr iddi ar hyn o bryd yw trefnu cyrsiau i arweinyddion cymdeithasau lleol gael hyfforddiant mewn egwyddorion sylfaenol o arwain pwyllgorau busnes, cadw cyfnodion a siarad cyhoeddus. Trefnwyd dau gwrs cyffelyb a fu'n bosibl trwy gymorth dâl oddiwrth Ymddiriedaeth Teyrnas Unedig Carnegie drwy Ffederasiwn Cenedlaethol y Cymdeithasau. Os bydd i'r cyrsiau peilot hyn brofi'n llwyddiant gobethir yr argyhoeddir awdurdodau lleol o'u gwerth ac yna asio y rhaglenni i gynllun addysg bellach.

Ym maes datblygiad cymdeithasol presenolodd ein swyddogion eu hunain gyda Chymdeithasau a grwpiau o ddinasyddion mewn maesdrefi newydd yn ein dinasoedd a'n trefi mawr.

Yn ychwanegol i'r canolfannau eraill derbyniodd tair o faesdrefi yng Nghaerdydd gyngor cyson a chefnogaeth. Bu cydweithrediad effeithiol gydag awdurdodau lleol yn y maes yma.

Ynghyd a'r Cyngor Cenedlaethol o Wasanaeth Cymdeithasol y mae'r Cyngor yn ymwneud o ddiifrif ag amcanion y Cyngor Cenedlaethol ar Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol. Ni ellir sicrhau dibenion Deddfau

Hyfforddi Gweithwyr Cymdeithasol

diweddaraf y Llywodraeth a drefnwyd i wella safonau addysgiadol chymdeithasol os nad oes gennym ddigon o aelodau i lenwi'r swyddi newydd a luniwyd mewn awdurdodau lleol. Y mae'n llawn mor bwysig ochr yn ochr gydag ymlediad awdurdodau lleol, fod gweithwyr gwirfoddol yn cael eu hyfforddi a'u darparu i chwarae eu rhan a amlinellwyd iddynt yn narpariaethau'r Ddeddf yma. Fel un cam i gwrdd a'r angen yma y mae'r Cyngor yn adfywio Ysgol i Weithwyr Cymdeithasol yng Nghymru, a fu ar un adeg yn ffurfio rhan gyson o'r rhaglen. Rhydd yr ysgol yma sylw i angenrheidiau am waith ymchwil mewn problemau cymdeithasol, ac hefyd i sicrhau gweithwyr cymdeithasol.

Sylwir oddiwrth yr adroddiad fod yr adran Hen Bobl a weinyddid ar fesurau rhan amser yn y gorfennol wedi ei ail drefnu a'i gwneud yn adran llawn gyda'i swyddog ei hun. Y mae'r Pwyllgor Gwaith a

Yr Oedrannus

Swyddogion y Cyngor yn benderfynol ein bod yn chwarae rhan bendant yn y maes yma sydd o wasanaeth mewn cymdeithas. Gweithred o ffydd oedd yr ail drefnu yma gan fod yr arian ar y pryd yn brin at y gwaith. Yn ystod y flwyddyn yr oeddem yn falch clywed i'r Gorfforaeth Genedlaethol er Gofal Hen Bobl benderfynnu rhoddi cymorth dâl hael a thrwy hynny rhyddhau y Cyngor o'r cyfrifoldeb o gynorthwyo'r adran yn ariannol. Rhaid egluro y bydd i'r cymorth dâl yma orffen ar ôl pum mlynedd. Erbyn hynny hyderwn y byddwn wedi argyhoeddi'r llywodraeth a'r cynrychiolwyr cyfreithiol a gwirfoddol o'r rhan bwysig y mae'n rhaid i'r Pwyllgor Hen Bobl dros Gymru chwarae os ydym am ganfod ymdrech genedlaethol gref i gwrdd a'r elfen gymdeithasol yma sydd ar gynydd.

Yn ystod y flwyddyn bu cyfnewidiadau ymhlith Pwyllgor Gwaith y Cyngor. Gyda thristwch dwfn y cofnodwn farwolaeth Syr Wynn P. Wheldon, K.B.E., D.S.O., a fu'n Gadeirydd y Cyngor hyd Tachwedd 1960, ac ar ôl hynny yn un o'n Is-Lywyddion.

Y diweddar

Syr Wynn P.

Wheldon

Yr oedd Syr Wynn yn un o arloeswyr y Cyngor o wasanaeth Cymdeithasol yn Ngogledd ac yn Ne Cymru gan dwys a thrafod materion am flynyddoedd yng ngolau ei brofiad helaeth o ddynion a materion. Hyd at ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth, yr oedd yn bresennol ym mhwyllgorau gwaith, ac anodd yw dychmygu am arwain ein materion yn y dyfodol heb ei gyngor parod ai dwysiad doeth. Tros-glywyddwyd ein cydymdeimlad dyfnaf i'r Foneddiges Wheldon a'r teulu.

Yn ystod y flwyddyn etholwyd yr aelodau canlynol o'r Pwyllgor Gwaith fel Is-Lywyddion yn rhinwedd eu gwasanaeth gwerthfawr i'r Cyngor : Syr Wynn P. Wheldon, K.B.E., Syr John Cecil Williams, Syr Robert

Etholiadau i

Safleoedd

Webber, Syr Wynne Cemlyn Jones a'r Henadur Llewellyn Heycock, C.B.E. Yn ychwanegol derbyniodd Dr. William Thomas, C.B.E., cyn Cyfarwyddwr y Cyngor safle fel un o'r Is-Lywyddion ac felly cedwir cysylltiad hapus. Cynyddwyd aelodaeth y Pwyllgor Gwaith drwy ychwanegu deg gwr a deg gwraig ; rhai y bu eu harweiniad mewn materion cymdeithasol a chyhoeddus o werth mawr i'w ddibenion. Y rhai hynny yw : Y Foneddiges Aberhonddu, Mrs. Blaise Gillie, Mr. C. N. D. Cole, Mr. Christopher Cory, Mr. Idris Evans, Athro Idris Foster, Mr. H. M. Lloyd, Mr. A. V. Lochhead, Uchgapten Cadfridog Lewis Pugh, Mr. Leslie Sketch.

Er na syrth anrhydeddu Syr George Haynes ag urdd Marchog gan E.M. Y Frenhines, o fewn y flwyddyn sydd o dan adolygiad estynnwn iddo ein llongyfarchiadau gwresocaf ar dderbyn ohonno yr anrhydedd yma. Bu Syr George yn aelod o'r Pwyllgor

Anrhydeddau

Gwaith am flynyddoedd a bu adeiladu'r Cyngor Cenedlaethol o Wasanaeth Cymdeithasol yn ystod ei dymor fel Cyfarwyddwr yn orchest goffaol. Dymuna'r Cyngor gofnodi i Syr George a'r Cyngor Cenedlaethol eu gwerthfawrogiad didwyll am gymorth a chyngor cyson.

Yr oedd y Cyngor yn falch iawn clywed i Mrs. Winifred Preston, Ysgrifennyddes y Cyfarwyddwr a phennaeth yr Adran Glerigol, dderbyn yr M.B.E. yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd. Gwasanaethodd Mrs. Preston y Cyngor gydag ymroddiad ers 1934, gan ddwyn arni gyfrifoldeb personol yn ystod y llu o gyfnewidiadau yn y cyfarwyddiad. Wrth anrhydeddu Mrs. Preston teimlwn fod Eí Mawrhydi Y Frenhines wedi anrhydeddu y Cyngor.

Yn ystod y flwyddyn penodwyd dau swyddog newydd i'r staff, sef, Mr. Edgar Spooner, cyn Ysgrifennydd Cyngor Gwlad Maesyfed, fel Swyddog Lles Hen Bobl, a Miss Mair George, cyn Warden Canolfan

Cyfnewidiadau'r

Staff

Cymdeithasol West Cross, Abertawe, fel Swyddog Ieuencid a Chymdeithasol. Collasom wasanaeth Mr. Herbert Davies, y Swyddog Gwledig, a Mrs. Megan Lewis, Cynorthwywr Clerigol. Estynnir diolchgarwch y Cyngor iddynt am eu gwasanaeth. Bu dau ychwanegiad newydd i'r staff glerigol, Miss B. S. Knapp a Mrs. P. Ovens.

Estynna'r Cyngor ddiolchgarwch i'r Gweinyddiaethau, y Comisiwn Datblygu, Cynghorau Lleol a'r Ymddiriedaethau, y rhai a sicrhodd barhad y gwaith ai cymorthdál.

Estynnir diolchgarwch y Cyngor hefyd i unigolion, achosion diwydiannol, tai masnach a'r Undebau Llafur am eu cyfraniadau. Yn arbennig felly carem roddi ar gôf a chadw i aelodau Clybiau Gwasanaeth Cymdeithasol

Gwerthfawrogiad

y Gwragedd ein gwerthfawrogiad diffuant, am eu cyfraniad haellionnus o £1,757. 0. 6d. Heb gefnogaeth y Clybiau hyn buasai bron yn amhosibl i barhau yn ariannol gyda llawer o'n gwaith.

Rhaid estyn gair o werthfawrogiad arbennig i'r Llywydd, Cadeirydd, a Swyddogion y Cyngor am eu nerth a chyngor yn ystod blwyddyn brysur o ymlediad. Yn arbennig ysbrydolwyd ni oll gan frwdfrydedd ein Cadeirydd, Cynrol W. R. Crawshay, a'r rhan a gymerai o ddydd i ddydd mewn achosion cymhleth a hawliau benderfyniadau buan.

Bu profiad ac awgrymiadau aelodau Pwyllgor Gwaith Cyngor yn nodwedd arbennig o waith y flwyddyn yn enwedig felly pan yr oeddem yn ail drefnu'r rhaglen.

Cynorthwywyd y Cyngor gan nerth ac ymgysegriad y staff, ac hoffai'r Pwyllgor Gwaith gofnodi gwerthfawrogiad o gydweithrediad y staff weinyddol, weithiol, ac allanol sydd o dan y Cyngor.



**ANERCHIAD A WNAED GAN Y DR. Y GWIR ANRHYDEDDUS
CHARLES HILL, A.S., GWEINIDOG TAI A LLYWODRAETH LEOL
A GWEINIDOG DROS FATERION CYMREIG YNG NGHYFARFOD
BLYNYDDOL Y CYNGOR A GYNHALIWDYD YN NEUADD Y DDINAS,
CAERDYDD, AR YR 17eg o HYDREE, 1961**

Dyma fy nghyhoeddiad cyntaf yng Nghymru ers fy apwyntiad fel Gweinidog dros Faterion Cymreig.

Mae'n hyfrydwch i mi ar yr achlysur yma gael cyfarfod a chorff sy'n gwasanaethu Cymru gyfan mewn cymaint o wahanol feysydd.

Gan wybod eich diddordeb am les y Cymry ni fedrwn ofyn am well cyflwyniad i broblemau cymdeithasol sydd yn mynd i ddenu fy niddordeb.

Efallai y caniatewch i mi ddweud ychydig eiriau am y problemau hynny fel yr amlygant eu hunain i mi.

Wrth edrych ar sefyllfa Cymru heddiw credaf mai rhaid yw i ni ddechrau gyda'r newid dramatig a ddaeth i fywyd economaidd y wlad yn ystod y blynyddoedd diweddaraf hyn.

Mae yna amryw o bobl sydd heb sylweddoli ehangder y cyfnewidiadau hyn. Mae'r pwyslais yn symud o adennill i ehangu.

Yr hyn a sylweddolir lai fyth yw fod y datblygiad economaidd yma yn cael effaith ddofn ar gymdeithas Cymru. Yn anffortunos hyd yn oed pan sylweddolir yr effeithiau cymdeithasol tueddi'r i drigo gormod ar elfeithiau croes yr ydym yn myned drwyddynt.

Yn yr ardaloedd gwledig mae'n naturiol i deimlo gofid am y boblogaeth sy'n lleihau, ond ychydig sy'n cydnabod y lleihad hyn i gynnydd effeithiolrwydd yn myd amaethyddiaeth.

'Roedd y cynnydd yma yn anhepgor os oeddem am symud y tldi o gefn gwlad Cymru.

Y mae'r gymdeithas wledig newydd sy'n datblygu yn awr yn gadarnach na fu pobl cefn gwlad Cymru erioed. Rhaid astudio angenrheidiau y gymdeithas newydd yma.

Yn yr un modd y mae'r ardaloedd sy'n teimlo ansicrwydd ynghylch eu dyfodol, fel rhai o'r ardaloedd diwydiannol yn Ne Cymru, yn meddwl gormod am y peryglon a erys iddynt, a rhy ychydig am yr adennill a sicrhawyd eisoes.

Wrth gwrs ni fedrwn ddiystyrru ein problemau cyfoes yn enwedig troseddau ieuencid, sydd yn sicr o fod yn ofid mawr i'r Cyngor ond y mae'n werth cofio fod gennym bwerau adeiladol ar ein hochr.

Dylasem wneud defnydd o'n manteision a'n ffawd dda, yn hytrach na chwyno am yr anawsterau.

Efallai na fedrwn sylweddoli'n gyflawn y cyfnewidiadau sy'n digwydd o'n hamgylch. Un rheswm am hyn yw na fedrwn ganfod canlyniadau rhai o'n mesurau mwyaf pendant.

Y mae'n rhy gynnar er enghraifft i weld dylanwad llawn Colegau Addysg Bellach. Ond ni ddylai yr anhawsterau hyn fod yn esgus dros laesu dwylo, yn hytrach dylasant ein symbylu i astudiaeth drwyadl o'r amseroedd yr ydym yn byw ynddynt.

Awgryma'r ystyriaethau hyn ein bod wedi cyrraedd croesffordd ar ba un y medr y Cyngor Cymreig o Wasanaeth Cymdeithasol adolygu ei weithgareddau.

Yr ydych chiwi a'ch mudiadau perthynol, wedi cyflawni gwaith da ers blyneddodd. Mewn rhai meysydd yr ydych wedi cyflawni llawer o'r gwaith y bwriaddech ei wneud.

Ni olyga hyn fod y gwaith ar ben, ond efallai y golyga y bydd yr amcan yn dra gwahanol yn y dyfodol.

Y mae'n gwasanaethau cymdeithasol amrywiol wedi tyfu'n unigol a throsglwyddwyd amryw o'r gwasanaethau gwirfoddol i adrannau'r Llywodraeth.

Y mae tyfiant corfforaeth fel y Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol gydag arolwg bendant wedi bod o werth mawr i gyfuno ymdrechion unigol. Y mae wedi gwneud llawer i ddwyn o amgylch uned angenrheidiol, ond y mae'n amheus a gyflawnodd y diben llawn i ba un y lluniwyd y Cyngor.

Yn arbennig a ddylai'r Cyngor Gwasanaeth Cymdeithasol wneuthur mwy i esbonio a dehongli Cymru iddi hi ei hun?

Y mae'n amlwg y bydd angen gofal mawr gyda unrhyw ddehongliad.

Da o beth buasai taflu goleuni ar y sefyllfa a'r anhawsterau, fel y teimlir unrhyw ddehongliad, pa un drwy awdurdod preifat neu awdurdod lleol, yn ddehongliad goleuedig.

Un broblem a dŷf ac a dŷf mewn pwysigrwydd yn ystod y ddeng mlynedd nesaf, yw y broblem o sicrhau personau cymwys ac addas i'r gwahanol wasanaethau cymdeithasol.

Dylasai sefydlu'r coleg yn Llundain i hyfforddi gweithwyr cymdeithasol fod o werth mawr, ond ni all fod o werth cyflawn os nad yw'r wybodaeth gennym a ddengys ym mha le y mae angen gweithwyr cymdeithasol ychwanegol, a beth ddylasai eu hyfforddiant fod.

Y mae llawer o'r tueddiadau a grybwyllais, yn bod yn Lloegr yn ogystal a Chymru.

Dywed rhai fod y gwahaniaethau ym mywyd economaidd Cymru yn tueddu ei debygu i fywyd yn Lloegr. Yn wir, clywn yn aml gwyno am gollu nodweddion arbennig Cymru.

Ar ran fy hun credaf mai camagraff yw hyn. Ni fedr neb a edwyn Cymru yn dda amau nag ydyw yn parhau gyda'i chymeriad ei hun, ac y mae cadwraeth gwreiddioldeb lleol o bwysigrwydd mawr.

Tra yr ydym am gadw hen nodweddion annwyl y Gymdeithas Gymreig byddai'n ffôl i droi ein cefnau ar y cyfnewidiadau presennol, a methu eu defnyddio'n adeiladol i gyfoethogi bywyd yn y dyfodol.

Yn awr felly, credaf ei bod yn bwysig cael Cyngor Cymreig o Wasanaeth Cymdeithasol i'n harwain yn y materion yma ac y mae'n bleser gennyf ddymuno llwyddiant i'ch gwaith yn y dyfodol.



ADRODDIADAU ADRANNOL GWLEDIG

Prif adran o waith y Cyngor yw cyfuno gweithgareddau'r Cynghorau Gwlad yng Nghymru a Mynwy. Y mae hyn yn cynnwys ymweliadau gan y Cyfarwyddwr a'r Dirpwy Gyfarwyddwr a phwyllgorau yn y wlad ac yna adrodd ar y gwaith a wneir gan y Cynghorau hyn i'r Comisiynwyr Datblygiad sydd yn rhoddi cymorth dâl hael tuag at y gwaith. Eistedda'r Cyfarwyddwr ar Bwyllgor Gwledig o'r Cyngor Cenedlaethol o Wasanaeth Cymdeithasol ar Is-Bwyllgor Cymorth Dâl Gwledig ac ymgynghorir ag ef bob amser pan yn priso'r cymorth dâl i Gynghorau Gwlad.

Fe gynwys y dyletswyddau hyn ymweliadau cyson â Llundain, ac hefyd bu'r Cyfarwyddwr yn aelod o Bwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyfredinol o Swyddfa'r Diwydiannau Gwledig a'r Cyngor. Gwnaed pob ymdrech i gyflwyno adroddiadau a cheisiadau o bob adran o Gymru yn ystod y flwyddyn.

Y mae cysylltiad agos rhwng y Cyngor a'r Pwyllgor Cenedlaethol Neuaddau Pentrefi, sydd yn ymddrin a'r gwaith o gynghori ynglyn ag adeiladu Neuaddau Pentrefi ac hefyd drafod y cymorth dâl a'r benthg

Neuaddau

Pentrefi

arian tuag at yr adeiladu. Y mae'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn presenoli ei hun yn gyson mewn pwyllgorau yn Llundain ac fe'i dewisiwyd i gynghori y Pwyllgorau Cenedlaethol ar arwerthiant Neuaddau Pentrefi tros dro mewn cysylltiad ac Ysgrifenyddion y Cynghorau Gwlad. Adeiladwyd nifer o'r neuaddau hyn yn y blynyddoedd ar ôl y rhyfel diwethaf, a chan ddilyn polisi'r Comisiwn Datblygu cynigwyd eu gwerthu i Bwyllgorau Neuaddau Pentrefi Lleol. Gweithia'r swyddfa yma mewn swydd o ymgynghori bolisiau Neuaddau Pentrefi mewn cysylltiad agos a'r Weinyddiaeth Addysg a'r Cynghorau Gwlad.

Uchafbwynt ein gwaith mewn cysylltiad a'r Adran Wledig, oedd y cydweithrediad rhwng Swyddfa Diwydiannau Gwledig a'r Cynghorau Cymdeithas Wledig yn llwyfannu yr Arddangosfa "Gwnaed yng

Arddangosfa

Nghymru Wledig" a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llandrindod. Yr oedd yn arddangosfa o'r radd flaenaf, sydd heb amheuaeth wedi denu llawer o sylw tuag at grefftau traddodiadol hen a newydd yng nghefn gwlad. Rhaid talu teyrnged i staff Swyddfa'r Diwydiannau Gwledig a'r Cynghorau Gwlad am y ffordd wirfoddol a brwdfrydig y gwnaethant ymateb i'r sialens o gyflwyno'r arddangosfa, y cyntaf o'r natur yma yng Nghymru ers blynyddoedd. Hyderir y daw polisi pendant i'r amlwg fel ffrwyth yr arddangosfa er lles Arddangosfeydd Cenedlaethol yn y Dywysogaeth.

Y mae unarddeg o Gynghorau Gwlad yng Nghymru a Mynwy ac y mae pob un yn gorff ymreolaidd. Annogir y Cyngor yma i sefydlu Cynghorau Gwlad yn y siroedd lle nad oes Cynghorau o'r fath ar hyn o bryd. Dwy Sir felly yng Nghymru yw Morgannwg a Fflint. Gwnaed ymdrechion cryf yn Sir Fflint yn ystod y flwyddyn, pan y cyfarfu'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr y Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Seneddol o'r Cyngor Sir, a hyderir fel ffwrth yr ymweliad yma a rhai eraill i'r Sir y sefydlir Cyngor Gwlad cyn bo hir. Pleser yw nodi fod Cyngor Sir Morgannwg wedi cydsynio mewn egwyddor sefydlu Cyngor Gwlad. Disgwylir yn ffyddiog y bydd i'r cywaith yma ffrwytho yn ystod y deuddeg mis nesaf ac y mae'r Cyfarwyddwr mewn cysylltiad agos a'r Comisiwn Datblygu a'r Pwyllgor Gwledig o'r Cynghorau Cenedlaethol wrth baratoi dadl dros gael cymorth dâl i'r Cyngor bwriadol newydd.

Yn ystod y flwyddyn sydd o dan adolygiad parhaodd y Cyngor i roddi gwasanaeth ym Morgannwg a Fflint drwy ei Adran Wledig. Ar ôl ystyriaeth fanwl penderfynnodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor ar ôl ymgynghoriadau ag Adrannau'r Llywodraeth a'r Comisiwn Datblygu gau ei Adran Gwledig o Mawrth 31ain, 1962. O'r dyddiad hynny bydd Cymdeithas Cynghorau Plwyf Morgannwg a Chymdeithas Meysydd Chwarae Morgannwg, i ba un y darparwyd yr ysgrifenyddiaeth, yn cyfuno i sefydlu swyddfa a staff ar wahan. Heb amheuaeth bydd ysgrifenyddion y rhai hyn a sefydliadau gwirfoddol eraill ym Morgannwg yn ymwneud ag ystyriaethau cyn ffurfio Cyngor Gwlad yn y Sir.

Y mae'r Cyngor Cymreig yn parhau gyda'r cyfrifoldeb am waith gwledig yn Sir Fflint hyd nes u ffurfir Cyngor Gwlad ac y mae'r Cyngor yn ddyledus iawn i Mr. Eifion, Y.H., am y gwaith y mae yn ei wneud yn y Sir.

Y mae'n rhaid nodi i'r Cynghorau Gwlad gael eu cyffwrdd yn ystod y flwyddyn gan gynigiadau'r Comisiwn Ffiniau. Y mae'r Cyfarwyddwr a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol ar ran y Cyngor Cymreig wedi bod mewn llawer o'r Cynhadleddau a alwyd gan y

Ffiniau Comisynwyr yn y cymdogaethau, a nodant yn fanwl effaith y cynigiadau, os mabwysiedir hwynt, ar waith Cynghorau Gwlad a mudiadau gwirfoddol. Beth bynnag a ddaw o'r deddfu sydd gerllaw, mae'n holl bwysig i'r Cyngor gynnig ei gynnig ei wasanaeth fel cyfrwng i unrhyw gynrychiolaeth a wneir gan y mudiadau cenedlaethol gwirfoddol.

Bu'r Cynghorau Gwlad yn brysur hefyd yn ystod y flwyddyn mewn pwyllgorau yn ymdrin a thrafnidiaeth leol a chau'r rheilffyrdd. Bu'r Cyngor yn ymwneud ag archwilio canlyniadau amcanion o'r fath, fel y gellir sicrhau darlun cenedlaethol clir.

Trafnidiaeth

Am rai blynyddoedd bellach bu Cynghorau Gwlad yn gwasanaethu fel cynrychiolwyr i'r Bwrdd Croeso i Gymru. Amrywia maes y gwasanaethu gryn dipyn ac yn ystod y deuddeg mis diwethaf bu'r Cyngor yn arwain trafodaethau ar ran y Cynghorau Gwlad i sefydlu polisi cang o gyhoeddusrwydd a thaliadau am wasanaethau a roddwyd. Mynegodd y Bwrdd Croeso i Gymru eu gwerthfawrogiad o'r gwaith a wneir gan y Cynghorau, a thebyg y ceir perthynas agosach ar ôl y trafodaethau diweddaraf.

**Bwrdd Croeso
i Gymru**

MORGANNWG

By gwaith y Cynghorau Plwyf yn ymwneud yn ystod y flwyddyn, fel yn y blynyddoedd blaenorol a darparu ysgrifenyddiaeth i Gymdeithas Morgannwg o Gynghorau Plwyf. Y mae hyn yn cynnwys darparu

Cynghorau

Plwyf

gwasanaeth gynghorol i Glerciau Cynghorau Plwyf, a sicrhau cyngor cyfreithiol i Gynghorau Plwyf ar y problemau amrywiol a ddaw i'w cyfarfod o dro i dro. Gweithiodd y Gymdeithas Genedlaethol o Gynghorau Plwyf yn ddygn i geisio sicrhau cydnabyddiaeth helaethach o Gynghorau Plwyf ac i ymddiried awdurdod helaethach iddynt, ac er sefydliad Cymdeithas Morgannwg o Gynghorau Plwyf yn 1947 cawsom brawf o'r cyfraniad defnyddiol a ellir ei wneud i lywodraeth lleol dda gan Gynghorau Plwyf.

Eitem arbennig o ddiddordeb nid yn unig i Gynghorau Plwyf ond i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru oedd cyhoeddi Awgrymiadau'r Comisiwn Llywodraeth Lleol ym Mai, 1961. Gwnaeth Cymdeithas

Ffiniau

Morgannwg gynrychioliad a'r Comisiwn ar ran holl Gynghorau Plwyf a'r Cyfarfodydd Plwyf yn y Sir, a gwnaed gynrychioliad pellach gan y Gymdeithas ar ran y Plwyfi a gawsai eu heffeithio yn uniongyrchol neu hwyrach gan yr Awgrymiadau Agoriadol. Cynrychiolwyd y Gymdeithas yng Nghynadleddau Awdurdodau Lleol a drefnwyd gan y Comisiwn yn Ne Cymru, a bu ein Swyddog Gwledig, yn rhinwedd ei swydd fel Ysgrifennydd y Gymdeithas, yn siarad ar ran y Plwyfi ym Morgannwg a ddeuai o dan effaith yr amcanion, a gofynnodd i'r Comisiwn yn ei dibenion terfynol i'r Gweinidog roddi cefnogaeth i barhad y Cynghorau Plwyf fel unedau hanfodol bwysig ym mhatrwn Llywodraeth Lleol yn y dyfodol.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yn y Guildhall, Abertawe ym mis Hydref, 1961, pryd y rhoddodd y Siaradwr Gwadd, Richard John, Ysw., Clerc Cyngor Sir Morgannwg anerchiad diddorol ar "Lle'r Plwyf yn Llywodraeth Lleol Sirol."

Erys y Gymdeithas gyda diddordeb mawr gyhoeddi bwriadau'r Gweinidog ar y cam cyntaf o adolygu ffiniau'r Siroedd a'r Bwrdeisdrefi, a chymryd rhan amlwg mewn adolygu cylchoedd Sirol gan y Cyngor Sir, a theimlant yn y cyswllt yma fod argoelion calonogol y bydd i'r Cynghorau Plwyf nid yn unig goroesi y broses wlad eang yma o Aildrefnu Llywodraeth Lleol, ond y bydd i Gynghorau Plwyf y dyfodol gael eu hymddiried gydag awdurdodau helaethach i'w galluogi i fod o fwy o wasanaeth i gymdeithas wledig. Efallai y byddai o ddiddordeb nodi fod ym Morgannwg boblogaeth gyfunol o dros 200,000 ac hefyd bod y Cynghorau Plwyf bron i gyd yn aelodau llawn a gweithgar o'r Gymdeithas.

Yn ystod y flwyddyn buom yn parhau i weinyddu'r ysgrifenyddiaeth i Gymdeithas Meysydd Chwarae Morgannwg, a bu ein Swyddog Gwledig yn ysgrifennydd y corif yma eto. Gweithreda'r Gymdeithas fel cynrychiolwyr Cymdeithas Genedlaethol y Meysydd

Meysydd

Chwarae

Chwarae a'r prif waith yw ymwneud a pharatoadau am geisiadau am gymorth dâl oddiwrth Awdurdodau Lleol a sefydliadau gwirfoddol. Y mae cyngor technegol gan y Gymdeithas wrth law oddiwrth y Gymdeithas Genedlaethol Meysydd Chwarae, ac y mae hyn wedi profi o werth mawr mewn sawl enghraifft pan yn paratoi cynllun maes chwarae, a gwerthfawrogir yn fawr iawn y gwasanaeth parod yma.

Mae'n pleser gennym gofnodi ein gwerthfawrogiad o agwedd hael Cyngor Sir Morgannwg tuag at eu awdurdodau o roddi cymorth-dâl tuag at ddarparu cyfleusterau adloniant a chan fod rhoddi cymorth-dâl tuag at gae chwarae plant tu allan i gwmpawd ei polisi, gwerthfawrogi eu cymorth-dâl a wnaed yn bosibl gan y Gymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol.

Cynigwyd cymorth daliadau am y cynlluniau canlynol yn ystod y flwyddyn 1961-1962:— Cyngor Cylch Trefol Penybont-ar-Ogwr, £135; Clwb Criced Pontneathvaughan, £24; Clwb Bechgyn Rhydyfro, £22; Brigâd y Bechgyn Caerdydd, £28; Cyngor Cylch Trefol Penybont-ar-Ogwr, £225; Cyngor Bwrdeisdref Castell-Nedd, £200; Cyngor Cylch Gwledig Pontardawe, £145; Cyngor Cylch Trefol Aberpennar, £390; Cyngor Bwrdeisdref Y Barri, £400; Cyngor Cylch Trefol Glyn-corrwg, £260; Clybiau Bechgyn Cymru (Pentref Bechgyn Sant Athan), £100.

Cymorth Daliadau

Yn gynhwysedig yn y cynlluniau a'r cymorth daliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn yr oedd maes chwarae plant yng Nghaerffili a Phenybont-ar-Ogwr ac helaethu Cae Brenin Siôr ym Mhontardawe at ba un y talwyd cymorth-dâl o £1,000; ac hefyd cwblhau Cae Brenin Siôr yn Abertawe y rhai a dderbyniodd sicc am £1,500, sef gweddill cyfanswm y cymorth-dâl o £4,500 a wnaed tuag at y cynllun.

Yn gynhwysedig yn y cynlluniau o dan ystyriaeth y mae cynllun helaethiad terfynol i Gae Brenin Siôr, Pontardawe, cynllun cae chwarae plant i Gyngor Plwyf Coedffranc; cynllun Ardal Ymarfer Mabolgampau yn Aberpennar a chynlluniau ar gyfer pedwar-ar-ddeg o Gaeau Chwarae Plant yn ardal Cyngor Cylch Trefol Gelligaer.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Gymdeithas yng Nghaerdydd ym mis Mai, pryd y bu Mr. W. D. Abernethy, Ysgrifennydd Cynorthwyol Cymorth-daliadau o Gymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol yn siarad ar "Arweiniad mewn Chwarae."

Y mae gwaith Mr. W. D. Abernethy dros y Gymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol yn ymwneud yn fwyaf arbennig a sefydlu Meysydd Chwarae i Blant, ac y mae wedi trefnu nifer o Gynhadleddau llywyddiannus ar "Arweiniad mewn Chwarae" mewn gwahanol gyfchoedd o'r wlad.

Bwriedid cynnal Cynhadledd o'r natur yma yng Nghymru yn Ebrill, 1962, a chydysniodd yr Arglwydd Faer i Gaerdydd goresawu'r Gynhadledd, a gwnaed trefniadau i gynnal y Gynhadledd yng Ngholeg Hyfforddi

Cynhadledd Athrawon, ond, yn anffortunus trwy amgylchiadau anarfod, bu'n rhaid i Gymdeithas Meysydd Chwarae Cenedlaethol i ohirio'r Gynhadledd. Hydera Cymdeithas Meysydd Chwarae Sir Forgannwg y bydd yn bosibl i'r Gynhadledd yma gymryd lle yn Hydref, 1962, a'r pryd hynny gobeithir y bydd yn bosibl i'r Gymdeithas gymryd y rhan weithredol a fydd yn angenrheidiol er mwyn sicrhau llwyddiant y Gynhadledd.

Y mae'r Cynlluniau "Arwain mewn Chwarae" sydd wedi eu llunio i blant ar ol oriau ysgol ac i ieuenctid ansefydlog, wedi profi o werth mawr i'r Gymdeithas, a gobeithir y cychwynnir cynlluniau cyffelyb yng Nghymru yn arbennig yn yr ardaloedd o boblogaeth niferus.

Cynorthwyodd yr Adran Wledig gyda'r cynlluniau i Neuaddau Pentrefi ym Morgannwg. Un neuadd felly sydd yng Nghraigcefnparc, a agorwyd ar Rhagfyr 2ail, 1961, a thrwy hynny gwblhau cywaith a ddechreuwyd 37 o flynyddoedd yn ol. Cynorthwyodd yr adran y Pwyllgor lleol i sicrhau cymorth ariannol sylweddol oddiwrth y Weinyddiaeth Addysg. Yn Efail Isaf sicrhawyd lle addas ar brydles hir oddiwrth y Cyngor Cylch Gwledig i adeiladu Neuadd y Pentref. Tynnwyd allan gynllun ar gyfer y neuadd, sicrhawyd camiatad cynllunio, ac anfonwyd cais i'r Weinyddiaeth Addysg am gymorth ariannol. Amcan gyfrifir y bydd i'r gost fod tua £5,000 a gobeithir y bydd i'r adeiladu ddechrau yn y dyfodol agos. Yn Mhenmarc symudodd y pwyllgor lleol ymlaen gyda'i ymdrech i drawsnewid hen Ysgol y Pentref i fod yn Neuadd y Pentref. Rhoddwyd cynorthwy gan Ysgol Pensaer-iaeth Cymru fel y bydd i'r neuadd a'r ysgol bentref leol gadw eu cefndir gwledig hyfryd. Bu'n bosibl i ni i gynghori y pwyllgor lleol ar y cynlluniau a'r cynorthwy ariannol. Rhoddwyd cyngor hefyd i Bwyllgor Neuadd y Pentref Rhoose ym mha le y bu ymdrechion i godi arian yn ystod y flwyddyn i'r diben o adeiladu neuadd. Bu ymgynghori a'r Cynghorau Plwyf yn yr ardal gyda'r amcan o wneud y gwaith yn gywaith awdurdod lleol i dderbyn cymorth dal oddiwrth Bwyllgor Addysg Morgannwg. Sicrhawyd cymorth-dal o £144 oddiwrth Ymddiriedaeth Teyrnas Unedig Carnegie tuag at sicrhau offer yn Neuadd y Pentref Nicholaston a Phenmaen.

FFLINT

Cysylltwyd y rhan fwyaf o weithgarwch gwledig yn Sir Fflint a'r Cynghorau Plwyf. Y mae 30 allan o 42 o Gynghorau Plwyf mewn aelodaeth a'r Gymdeithas Sirol. Bu Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas yn ystyried ei gynrychiolaeth ar gyrfi llywodraethol yr Ysgolion Gramadeg ac Eilradd Fodern a phenderfynnwyd i "ddosbarthu" yr ysgolion i'r adrannau a ddaw o dan gylchoedd y Pwyllgorau Adran a chaniatau y Pwyllgorau Adran i anfon ei dewisiadau i'w cadarnhau gan y Pwyllgor Gwaith Sirol.

Cynrychioliad

Yn ystod y flwyddyn rhoddwyd llawer o amser i archwilio, Dibention Sylfaenol y Comisiwn Ffiniau. Gydag un eithriad cynhaliodd pob Pwyllgor Adran gyfarfod arbennig, ym mha rai y bu'r Ysgrifennydd gyda'r amcan o adrodd i'r Pwyllgor Gwaith Sirol, ac y mae'r adroddiadau hyn yn ffurfio sail atebiad y Gymdeithas a baratowyd ac a anfonwyd i'r Comisiwn. Penderfynnodd y Pwyllgor Gwaith i'r Gymdeithas gefnogi y Cyngor Sir, ac i wrthwynebu Dibention Sylfaenol y Comisiwn cyn belled ag y mae'r sir yma yn y cwestiwn.

Mater arall ym mha un y gweithredodd y Pwyllgor Gwaith yn llwyddiannus oedd ffurfio Cymdeithas Meysydd Chwarae Sirol. Bu absenoldeb corff o'r natur yma yn anfantais ers tro byd. Gofynnwyd i'r Ysgrifennydd i alw Cynhadledd Sirol, i ba un y gwahoddwyd gynrychiolwyr o bob awdurdod lleol, Cynghorau Plwyf, a sefydliadau gwirfoddol eraill. Bu ymateb rhagorol a chydysniwyd yn unfrydol i ffurfio y Gymdeithas Meysydd Chwarae yma. Cynhaliwyd dwy Gynhadledd Sirol un ar y 26ain o Orffennaf a'r llall ar yr 31ain o Hydref 1961. Yr

Meysydd Chwarae

oedd ymateb mudiadau, cyfreithiol a gwirfoddol yn hynod o galonogol ac y mae amrywiaeth o gyrff wedi anfon tâl uno. Y mae yn rhy gynnar eto i adrodd ar fabwysiadu unrhyw gynllun pendant, ond y mae amryw o gyweithiau a dan ystyriaeth, a gwneir adolygiad o'r ardaloedd.

Mr. Eifion Jones, Y.H., yw'r Ysgrifennydd i Gymdeithas y Cynghorau Plwyf a Chymdeithas Meysydd Chwarae Sir Fflint. Rhoddodd hefyd llawer o wybodaeth i Gyngor Gwasanaeth Cymdeithasol pan yn paratoi cais i Gyngor Sir Fflint i ffurfio Gyngor Gwlad. Y mae'r ddwy Gymdeithas yn ddyledus iawn i'r Cynghorydd Llewellyn Edwards, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith Sirol o Gymdeithas y Cynghorau Plwyf.



CLYBIAU'R MERCHED

Tri prif amcan Clybiau'r Merched yw (1) darparu cyfleusterau i fywyd cymdeithasol ac addysg anffurfiol o fewn cwrpawd y merched, ac yn arbennig gwragedd tŷ; (2) parhau i roddi i aelodau gyfleusterau i ddeall eu cyfrifoldeb ac hawliau fel dinasyddion au cefnogi i fod o wasanaeth i'w gilydd ac i'w cymdogaeth; (3) I roddi cyfle i aelodau i ddatblygu eu talentau a galluoedd ac i'w cynorthwyo i fyw bywyd llawn a dedwydd.

Y mae cyfanswm nifer aelodau y 116 o glybiau yng nghymdogaeth 3,500 gyda chyfartaledd presenoldeb o 20/25 ym mhob ciwb.

Yn ystod 1961-1962 cynhaliwyd 33 o Ysgolion Hyfforddi Undydd, a threfnwyd 98 o ddarlithiau ac arddangosfeydd ffilmiau yn ogystal a hanner cant o ddsbarthiadau "Cadw'n Heini."

Byddai'r gwaith yma, yr adran fwyaf o'r Cyngor, yn amhosibl heb y cymorth-dâl hael oddiwrth Bwyllgorau Addysg Morgannwg a Chaerfyrddin, swyddogion y rhai sydd yn gweithio mewn cyfathrach agos â staff yr adran. Yn ychwanegol i Brif-Swyddog y Merched, y mae tri o Drefnyddion amser llawn, pump o hyfforddwyr amser llawn, ac wyth o hyfforddwyr rhan amser.

Bu'r Cyngor yn ceisio cyiarfod a'r duedd sydd ar gynydd, o ffurfio Clybiau newydd mewn ardaloedd newydd. Y mae galwad arbennig oddiwrth yr ystadâu tai newydd a bwriedir archwilio pob cyfle i ehangu'r gwaith yn y maes yma. Yn ystod y flwyddyn ifurfiwyd Clybiau newydd yng Nglyncoch, Efail Isaf, Ynys (Rhydyfelin) Trelales, Coytrahen, Hen Baglan, Ystad Baglan Newydd.

Gellir casglu'r modd y mae aelodau Clwb yn dwyn eu cyfrifoldeb fel dinasyddion, oddiwrth nifer y penderfyniadau a wnaed i'r Gynhadledd Flynyddol yng Nghymru a Llundain. Cymbella'r penderfyniadau hyn gyfnewidiadau ym mywyd economaidd a

Penderfyniadau

chymdeithasol y gymdeithas. Derbyniwyd benderfyniadau oddiwrth Glybiau ar faterion fel Pensiynau, Gwragedd Gweddwon, Pensiynau Ymddeol, lechydaeth yn yr Ysgolion, Ffyrnigrwydd ar y Teledu, Hysbysebu ar y Teledu, Creulondeb tuag at Blant, Treisiclau Modur i'r Methodig, iawn dâl Hen, a llu o faterion eraill.

Rhoddodd yr amcanion a nodwyd uchod gyfle i aelodau'r Clybiau ddatblygu eu doniau au talentau personol. Ffuria pob Adran neu Glwb ei batrwm ei hun i ateb angenrheidiau y gwahanol aelodau. Y mae'n amhosibl rhoddi adroddiad manwl o weithgareddau amrywiol yr ardal, ond gellir nodi rhai o'r digwyddiadau mwyaf arbennig.

Ym Mhenybont-ar-Ogwr yn Rhagfyr, 1961, agorwyd arddangosfa o waith aelodau Clybiau Cylch Canol Morgannwg gan yr Henadur Sirol Llewellyn Heycock, C.B.E., Y.H. Cadeirydd Pwyllgor Addysg Morgannwg. Yr oedd safon yr hyn a ddangoswyd yn neulduol o uchel. Yn yr hwyr ymunodd cynulleidfa o saith cant a hanner mewn

Arddangosfeydd
Gwasanaeth Carolau o dan arweiniad Miss Annie J. Hills, Y.H. Cynhaliwyd arddangosfa lwyddiannus arall yn Neuadd y Shelley, Pontypridd, o waith aelodau'r Clybiau yn yr ardal. Bu'r amgylchiad yma eto yn llwyddiant mawr, a gwnaed llu o sylwadau ffafriol ar safon y gwaith.

Bu aelodau Clybiau Sir Gaerfyrddin a Gorllewin Morgannwg yn arbenigo yn ystod y flwyddyn mewn Drama a Cherddoriaeth, a chafwyd Gwyl Ddrama yn y Y.M.C.A., Abertawe, o dan nawdd y ddwy sir, pryd y llwyfanwyd pump drama un act gan y clybiau canlynol, Tre Gwyr, Pwllglaw, Sciwen, Taibach a Thymaen. Cynhyrchodd aelodau un adran Ddrama'r Pasg yn Ysgol Aml Ochrog, Sandfields, Port Talbot, a chafodd hon eto

Drama a Cherddoriaeth
dderbyniad da. Enghraifft arall o weithgareddau ym myd Drama'r Clybiau oedd y cynrychiad o Ddrama'r Nadolig gan aelodau Taibach, ac aeth llu o aelodau i Wasanaeth Carolau yng Ngholeg Addysg Bellach Margam i gwblhau blwyddyn nodedig o weithgarwch.

Y mae'r arddangosfeydd, dramaau, a'r rhaglenni cerddorol yma yn portreadu'r gwaith sy'n parhau o wythnos i wythnos yn y Clybiau, ac yn dangos y pwyslais a roddir ar addysg anffurfiol.

Nid yn unig y mae'r Clybiau yn brysur gyda'u diddordebau amrywiol eu hun, ond hefyd gofalent am angenrheidiau cymdogion llai ffortunus. Rhoddir llawer o amser i gynorthwyo achosion teilwng yn eu cychoedd eu hunain. Y mae llawer o aelodau'r Clwb yn ymweld a thai hen bobl i'w cynorthwyo gyda siopa a gwaith tŷ. Cymer rai Clybiau ran yn y cynlluniau i ymweld a'r ysbytai ac y maent yn weithgar mewn cymdeithasau gwirioddol yn dyrchafu budd cyffredinol. Rhoddodd un Clwb Lestri Cymun i Ysbyty, defnyddiodd un arall eu medr mewn crefftwaith i wneud " matiau penlin " i'r eglwys leol. Yn draddodiadol y mae sefydliadau'r Merched yn gyfringau naturiol i grynhoi arian i apel genedlaethol, ac heb eithriad y mae aelodau Clybiau'r Merched yn chwarae rhan amlwg yn y gwaith yma.

Y mae staff Adran y Merched yn parhau i gynorthwyo sefydliadau eraill drwy ddangos, ac egluro, ac arddangosfeydd, a thrwy wasanaethu fel beirniaid pan y bydd angen. Y mae galwad mawr am wasanaeth staff brofiadol wedi eu hyfforddi, ac yn naturiol rhoddir blaenoriaeth i waith Clybiau ni ein hunain.

Cydweithrediad
Cynrychiolir y Cyngor Cymreig o Wasanaeth Cymdeithasol, drwy adran y Merched ar y Sefydliadau Merched canlynol, Cyngor Ymgynghorol y Merched ar Danwydd Caled, Cynhadledd Barhaol Sefydliadau'r

Merched, Is-Bwyllgor y Gwragedd, Y Weinyddiaeth Lafur, Y Gymdeithas Drydannol (Pwyllgor y Merched), Pwyllgor Cymru o Wasanaethau Gwirfoddol y Merched, Cymdeithas Genedlaethol o Glybiau'r Merched, Pwyllgor Ymgynghorol y Merched, Sefydliad Safonau Prydeinig.

Cyflwynwyd cynllun cyflawn o insiwrin i'r Clybiau drwy'r Gymdeithas Genedlaethol.

Cynhaliwyd y Seithfed Gynhadledd Flynyddol a'r Bumed Breswyl o Gymdeithas Gymraeg Glybiau'r Merched yng Nglan-y-môr, Y Barri, yn Ebrill, 1961, gyda dau gant o gynrychiolwyr. Llywyddwyd gan

Cynhadleddau

Miss Jennie Jenkins, Cadeiryddes Cymdeithas Genedlaethol Clybiau'r Merched a Chymdeithas Gymreig Clybiau'r Merched, Y ddwy thema oedd "Addysg a Bywyd Teuluol" a "Gwasanaethu'r Gymdeithas." Y prif siaradwyr oedd Mr. Evan Davies, Swyddog Gwaith Rhanbarthol dros adran Castell Nedd, Pwyllgor Addysg Morgannwg, yr hwn a siaradodd ar y testun cyntaf, a Mr. Ieuan O. Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyl y Cyngor yma, a siaradodd ar yr ail destun. Cafwyd trafodaeth ar dri ar ddeg o benderfyniadau o ddiddordeb lleol a chenedlaethol yn ystod y ddau ddiwrnod.

Yn ychwanegol i Gynhadledd y Barri, dewiswyd 35 o gynrychiolwyr ac ymwelwyr i gynrychioli Cymru yn y Gynhadledd Genedlaethol yn Llundain ym mis Medi.

Cynhelir cynhadleddau lleol, a adnabyddir fel cyfarfodydd grwpiau, bob tymor a dilynir y rhai hyn gan gynhadledd gylich gyda chynrychiolwyr o bob Clwb. Yn y cyfarfodydd hyn, gwneir penderfyniadau, trafodir problemau'r Clybiau, etholir cynrychiolwyr a thrafodir materion o ddiddordeb cyffredinol.



PWYLLGOR GOFALU AM YR OEDRANNUS YNG NGHYMRU

Darparodd y Cyngor y cartref gweinyddol a'r ysgrifenyddiaeth i Bwyllgor Lles Hen Bobl Cymru er ei ddechreuad yn 1947. Mewn Cyfarfod Blynyddol yn ddiweddar newidiwyd enw'r Pwyllgor i "Bwyllgor Lles yr Oeddrannus yng Nghymru."

